**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu** |
| **DYDDIAD:** | **2 Mawrth 2022** |
| **LLEOLIAD:** | **O bell dros y we** |
| **TEITL:** | **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Ceredigion** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Er gwybodaeth** |

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn rhan o Borth Cynnal, o dan y Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau. Fel rhan o'r rhaglen Gydol Oes a Llesiant ac ar ôl ymgynghori â'n partneriaid statudol ar y Bwrdd Rheoli Ieuenctid, cytunwyd i rannu'r gwasanaeth blaenorol ar sail atal (Gwaith Ieuenctid) a gwaith statudol (Cyfiawnder Ieuenctid). Mae hyn yn cyd-fynd â pholisi a dull y Cyngor o ddatblygu gwasanaethau atal a hefyd cael darpariaeth arbenigol wedi'i thargedu.

Roedd Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 wedi cyflwyno gofyniad ar i awdurdodau lleol sefydlu Tîm Troseddau Ieuenctid a oedd yn cynnwys aelodau o'r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth prawf, meysydd iechyd ac addysg. Bod y Timau Troseddau Ieuenctid yn:

- Cynorthwyo'r heddlu gydag ymdrin y tu allan i'r llysoedd a threfnu bod oedolion priodol yn bresennol pan fydd yr heddlu yn eu holi;
- Darparu adroddiadau a gwybodaeth sy'n ofynnol gan y llysoedd mewn achosion troseddol yn erbyn plant a phobl ifanc; a
- Goruchwylio plant a phobl ifanc sy'n treulio dedfryd gymunedol a/neu wedi cael eu rhyddhau o'r ddalfa.

Gwaith y Tîm

Gorchmynion Llys/ Rhybuddion yr Heddlu – bydd unrhyw berson ifanc sy'n cael ei ganfod yn euog o drosedd yn cael ei gyfeirio'n awtomatig at y gwasanaeth a bydd yn rhan o'i orchymyn ei fod yn ymwneud â'r gwasanaeth – o fethu â gwneud hynny bydd yn dychwelyd i'r llys. Mae hyn yn cynnwys Pobl Ifanc sy'n cael dedfryd o garchar a bydd y gwasanaeth yn gweithio gyda nhw. Rydym yn ffodus iawn fod nifer y bobl ifanc yn isel iawn, fel rheol yn llai na 10 y flwyddyn.

Gwaith Cyfiawnder Adferol – sef gorchymyn y tu allan i'r llys lle gall person ifanc gael ei gyhuddo ond bod yr Heddlu yn penderfynu y byddai'n well dilyn llwybr adferol. Yn fynych byddai'r person ifanc yn derbyn Rhybuddiad gan yr Heddlu. Rhaid i'r person ifanc gyfaddef y drosedd a bydd yn mynd i Fiwro a gadeirir gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, gyda'r heddlu a gwirfoddolwr hyfforddedig yn bresennol. Mae'r dull hwn yn helpu'r person ifanc i gydnabod effaith y drosedd ac yna bydd y panel yn penderfynu sut y bydd yn gwneud yn iawn i'r gymuned. Gallai hyn olygu anfon llythyr o ymddiheuriad, trwsio'r difrod, gwneud taliad ariannol neu wneud nifer o oriau o

waith gwirfoddol. Mewn blwyddyn gyfartalog rydym yn cynnal tua 50 o'r Biwros ac ystyrir ei fod yn ffordd effeithiol iawn o fynd i’r afael ag ymddygiad pobl ifanc.

Atal – mae nifer o bobl ifanc wedi'u nodi gan y Gwasanaethau Diogelu neu’r Porth Cymorth Cynnar fel rhai sydd mewn perygl o droseddu felly mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth wedi’i dargedu. Mae hyn yn wirfoddol gyda phwyslais ar ymgysylltu â phobl ifanc sydd yn aml mewn perygl o achos eu gweithredoedd eu hunain ac a allai gyflawni trosedd yn y pen draw oherwydd eu hymddygiad neu’r bobl maen nhw’n cymysgu â nhw.

Oedolion Priodol – os caiff person ifanc ei arestio a’i fod heb oedolyn addas i’w gefnogi tra bydd yn nalfa'r Heddlu ac yn ystod y cyfweliad â’r Heddlu, mae'r gwasanaeth yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Cymorth i Ddioddefwyr – fel rhan o'r dull adferol a fabwysiedir gan y gwasanaeth, rydym yn cefnogi dioddefwyr y troseddau sy’n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Mae hyn yn bwysig i’r dioddefwr ond hefyd i’r person ifanc oherwydd gallwn sicrhau bod y person ifanc yn deall effaith ei weithredoedd ac yn cydnabod y gallent gael effaith hirach nag yr oedd wedi’i ystyried.

Tueddiadau/ Pryderon

Pandemig - cafwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y troseddau a gofnodwyd. Roedd pobl ifanc yn eithriadol o dda o ran dilyn y canllawiau, peidio â mynd allan ac o ran cydymffurfio’n gyffredinol. Ceir tystiolaeth fod peidio â mynychu'r ysgol a pheidio â chymdeithasu yn cael effaith o ran lefelau uwch o bryder, straen ac anniddigrwydd cyffredinol. Cafwyd rhywfaint o wrthwynebiad i ddilyn rheolau yn gaeth, ac yn fy marn i nid oedd yn helpu fod rhai gwleidyddion wedi anwybyddu’r un rheolau. Rydym yn gweld tarfu yn yr ysgol ac achosion o fân ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Camddefnyddio Sylweddau - mae hyn yn parhau’n destun pryder, a chyda lleiafrif o bobl ifanc Ceredigion mae’n faes yr ydym yn ei dargedu drwy addysgu ac ymyriadau wedi’u targedu.

Rhannu delweddau rhywiol o’r corff – mae rhannu a dosbarthu delweddau heb gydsyniad yn drosedd ac mae nifer o bobl ifanc wedi cyflawni'r drosedd hon, yn aml yn ddiarwybod iddynt. Felly rydym wedi bod yn addysgu a hefyd yn llywio darnau o waith oherwydd gallai’r effeithiau fod yn fawr ar fywydau’r dioddefwr a'r troseddwr.

Troseddau â chyllyll - Mae hyn wedi cael sylw yn y cyfryngau yn genedlaethol ac mae’n faes sy’n peri pryder. Cyflawnwyd dwy drosedd ddifrifol yng Ngheredigion felly rydym yn gweithio’n galed i wneud yn siŵr fod pobl ifanc yn deall peryglon a chanlyniadau’r drosedd hon.

**ARGYMHELLIAD:**

Er gwybodaeth

**Enw Cyswllt: John Callow**
**Swydd: Rheolwr Corfforaethol Porth Cynnal**

**Dyddiad yr Adroddiad: 16/2/22**